# Adolygiad o’r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2583A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion 8

Diwylliant sefydliadol a gwella ansawdd 11

Strwythurau a phrosesau llywodraethu 19

Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd 25

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 29

Atodiad 2 – canfyddiadau arolwg y staff 33

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Dylai ansawdd fod wrth wraidd pob agwedd ar ofal iechyd, ac mae rhoi ansawdd a diogelwch cleifion uwchlaw popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael fod yn gostus hefyd o ran niwed, gwastraff ac amrywiad. Mae angen rhoi fframwaith llywodraethu cadarn ar waith ar sefydliadau'r GIG a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt er mwyn helpu i sicrhau y darperir gofal iechyd diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel. Un o ddibenion allweddol y trefniadau 'llywodraethu ansawdd' hyn yw helpu sefydliadau a'u staff i fonitro safonau gofal, gan eu gwella yn ôl yr angen.

2 Atgyfnerthwyd y sbardun i wella ansawdd mewn strategaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol olynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau ansawdd ar draws y system, yn ogystal â rhoi dyletswydd ar gyrff y GIG i fod yn ddidwyll, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith er mwyn gallu dysgu. Mae'r Ddeddf yn nodi bod ansawdd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

3 Mae'n rhaid i ansawdd a diogelwch dreiddio drwy bob agwedd ar y broses o gynllunio ac o ddarparu gwasanaethau, gan fod yn amlwg yng nghynlluniau tymor canolig integredig cyrff y GIG. Disgwylir i gyrff y GIG fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel y bwrdd a thrwy'r holl leoliadau gwasanaethau, partneriaethau a gofal. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith Asesu Strwythuredig blynyddol ledled Cymru wedi tynnu sylw at heriau amrywiol, gan gynnwys yr angen i wella'r llifau sicrwydd o ran ansawdd a diogelwch, goruchwylio archwiliadau clinigol, a'r gwaith o olrhain canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddio ac arolygu. Bu adolygiadau proffil uchel ychwanegol hefyd i bryderon ynghylch ansawdd gofal a dulliau llywodraethu cysylltiedig mewn cyrff GIG unigol.

4 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod byrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu o ansawdd yn effeithiol a bod cyrff y GIG yn parhau i ganolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae fframwaith cynllunio presennol GIG Cymru yn adlewyrchu'r angen i ystyried y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'n bwysig bod cyrff y GIG yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu o ansawdd yn cefnogi goruchwyliaeth sefydliadol dda o'r niwed hyn yn rhan o'u dull ehangach o sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol.

5 Archwiliodd ein harchwiliad a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Canolbwyntiwyd ar y dull gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, y diwylliant ac ymddygiad sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifau gwybodaeth ac adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith yn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd rhwng mis

Ionawr a mis Mehefin 2021. Er mwyn profi'r safbwynt 'o'r llawr i'r bwrdd', gwnaethom archwilio'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol. Mae'r archwiliad yn defnyddio canfyddiadau adolygiad lleol blaenorol o drefniadau ansawdd a diogelwch gweithredol yn y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn 2019 a ganfu fod rhai trefniadau ansawdd a diogelwch da ar lefel y gyfarwyddiaeth, a gefnogwyd trwy ddatblygu trefniadau corfforaethol ond nad oedd y rhain yn gyson eto, ac nad oedd y llif sicrwydd o'r cyfarwyddiaethau i'r Bwrdd mor effeithiol ag y gallai fod.

6 Er nad adolygiad ar y cyd yw hwn, rydym wedi ymgysylltu'n agos ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wrth gynllunio a chyflwyno'r gwaith hwn. Mae cydweithwyr AGIC wedi cymryd rhan amrywiol mewn gweithgareddau sydd â'r nod o rannu gwybodaeth a deallusrwydd sy'n deillio o'r gwaith hwn a gweithgareddau adolygu allanol cysylltiedig eraill. Yn unol â gofynion deddfwriaethol COVID-19 ar adeg y gwaith maes, gwnaed yr holl waith archwilio o bell.

# Negeseuon allweddol

7 Yn gyffredinol, canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a'i fod wedi cysoni ei strategaeth a'i gynlluniau â threfniadau gwella ansawdd a risg. Er bod strwythurau ac adnoddau corfforaethol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer llywodraethu o ansawdd a gwelliant, mae anghysondebau mewn trefniadau gweithredol a gwendidau wrth reoli risgiau gweithredol yn cyfyngu ar y sicrwydd a ddarperir. Caiff y broses o fonitro ac o graffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau ei chryfhau drwy ddefnyddio rhagor o fesurau canlyniadau ansawdd.**

8 Mae gwaith a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar i gysoni ei amcanion strategol, ei flaenoriaethau cynllunio a'i flaenoriaethau gwella ansawdd wedi cryfhau ei allu i sicrhau bod gwella ansawdd wrth wraidd ei drefniadau llywodraethu. Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig, ac mae'r staff yn hyderus ar y cyfan ynghylch adrodd am bryderon. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wrando a dysgu a sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu a'u cyfleu, gan gynnwys drwy Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae'r cyfrifoldeb corfforaethol am ansawdd a diogelwch wedi ei sefydlu'n dda, ac mae'r timau corfforaethol yn cefnogi'r staff gweithredol yn dda. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu dulliau arloesol o gryfhau adnoddau a'r capasiti ar gyfer profiadau cleifion. Ceir defnydd cynyddol o ddangosyddion canlyniadau ansawdd a diogelwch er mwyn helpu i gynllunio canllawiau a monitro trefniadau, gan gynnwys gweithredu'r pedwar cwadrant niwed.

9 Fodd bynnag, cyfyngir ar sicrwydd i'r Bwrdd gan anghysondebau o ran rheoli risgiau gweithredol, methiant i ddiweddaru rhai risgiau a gofnodwyd yn y gofrestr risgiau gweithredol yn unol â pholisi corfforaethol, a diffygion yng nghynnwys

cofrestri. Er bod cyfrifoldeb a strwythurau corfforaethol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion wedi eu sefydlu'n glir, mae arweinyddiaeth, adnoddau a threfniadau i gefnogi llywodraethu o ansawdd yn parhau i fod yn anghyson ar lefel weithredol. Mae'r ffordd y caiff risgiau a materion eu hadrodd i'r Bwrdd drwy is-bwyllgorau a phwyllgorau yn arwain weithiau at lastwreiddio'r neges sy'n cael ei chyfleu.

## Argymhellion

10 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Effeithiolrwydd is-grwpiau ansawdd a diogelwch**<br>A1 Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd dempledi generig ar gyfer agendâu a chylch gorchwyl is-grwpiau yr Is-bwyllgor Ansawdd Gweithredol, Diogelwch a Phrofiad er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau gweithredol. Canfuom nad yw cofnodion cyfarfodydd is-grwpiau o safon gyson ac nad ydynt ar gael yn rhwydd pan mae eu hangen nhw. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) fandadu'r defnydd o'r templedi generig a gyhoeddwyd yn ddiweddar gyda'r ddealltwriaeth bod templed yr agenda yn ofyniad sylfaenol y gellir ei ategu fel y bo'n briodol;<br>b) cyhoeddi canllawiau ar gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd; a<br>c) sicrhau bod cofnodion lleol yn cael eu storio mewn lleoliad safonol er mwyn hwyluso mynediad. |
| **Arweinyddiaeth weithredol**<br>A2 Ar lefel weithredol, ceir trefniadau arwain sicrwydd, risg a diogelwch anghyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau presennol pan fo adnoddau staff ar gyfer sicrwydd, risg a diogelwch yn cael eu rheoli gan gyfarwyddiaethau er mwyn gwella cysondeb, neu symud i fodel ble caiff y staff hynny eu rheoli'n ganolog, gan sicrhau bod y cymorth sydd ar gael i'r timau gweithredol yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. |

**Argymhellion**

**Cofrestrau Risgiau**

A3 Nid yw cofnodion cofrestrau risgiau yn cael eu diweddaru am fisoedd lawer, sy'n cyfyngu ar eu sicrwydd. Cofnodir rhai risgiau fwy nag unwaith, nid ydynt yn cael eu cydgysylltu ar draws meysydd gwasanaeth ac mae potensial hefyd y gallai effaith cyfuniad o risgiau ar wahân arwain at ganlyniadau difrifol i wasanaethau. Hefyd, nid yw risgiau sy'n benodol i'r Tîm Llawdriniaethau Cyffredinol wedi eu cynnwys yng nghofrestr risgiau y Gyfarwyddiaeth Gofal Cynlluniedig wedi ei Drefnu Rhestredig. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei reolaeth o risgiau ar lefel weithredol drwy:

a) sicrhau bod timau gweithredol yn nodi'n glir y risgiau y maent yn gyfrifol amdanynt ac yn diweddaru cofrestrau risgiau yn unol â pholisïau corfforaethol; a

b) rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwaith o reoli risgiau yn cael ei gydlynu ar draws timau gweithredol a bod dulliau ar waith i nodi pryd y gallai cyfuniad nifer o risgiau ar draws meysydd gwasanaeth arwain at risg mwy difrifol.

**Rheoli Risgiau**

A4 Mae'r dull rheoli risgiau a ddefnyddir gan reolwyr gweithredol yn anghyson, ac mae diffyg cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer rhai risgiau ar lefel weithredol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu cymorth i alluogi uwch-reolwyr ar draws y strwythur gweithredol i ysgwyddo'r baich a bod yn atebol am eu cyfrifoldebau rheoli risgiau, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion

11 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae blaenoriaethau sydd wedi eu diffinio'n glir ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion, ac i ba raddau y llinierir y risgiau i'w cyflawni nhw'n effeithiol.

12 **Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi cysoni ei amcanion strategol, ei flaenoriaethau cynllunio a'i flaenoriaethau gwella ansawdd. Mae'r parodrwydd corfforaethol i dderbyn risg wedi ei egluro ac mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei gryfhau ymhellach. Fodd bynnag, mae diffygion yn y broses o reoli risgiau gweithredol yn cyfyngu ar y sicrwydd a ddarperir i'r Bwrdd.**

### Blaenoriaethau ansawdd a diogelwch cleifion

13 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ei ymrwymiad i wella ansawdd a diogelwch cleifion drwy ei strategaethau ac mae gwaith diweddar wedi cysoni ei amcanion strategol, ei flaenoriaethau cynllunio a'i flaenoriaethau gwella ansawdd.**

14 Mae ansawdd a diogelwch cleifion yn elfennau allweddol sy'n treiddio amcanion a blaenoriaethau y Bwrdd Iechyd. Mae'r cynllun strategol hirdymor yn pwysleisio bod gwella ansawdd a gwasanaethau yn un o'i brif alluogwyr.

15 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith cynhwysfawr i adnewyddu ei chwe amcan strategol ac i sefydlu cyfres o amcanion cynllunio mesuradwy er mwyn symud y sefydliad tuag at ei nodau yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae Cynllun Adfer Blynyddol 2021-22 yn cysylltu amcanion strategol â blaenoriaethau cynllunio ac yn cynnwys mesurau llwyddiant sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gwella ansawdd. Mae asesiadau o'r effaith ar ansawdd a gofal cleifion yn elfen orfodol yn y templed safonol ar gyfer adroddiadau i'r Bwrdd.

16 Caiff cynlluniau'r Bwrdd Iechyd eu tanategu gan fframwaith ansawdd cyntaf y Bwrdd Iechyd, Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd 2018-21 sy'n sefydlu pum Nod Gwella Ansawdd:

- dim marwolaethau y gellir eu hosgoi;
- diogelu cleifion rhag niwed sy'n deillio o ofal y gellir ei osgoi;
- lleihau dyblygiadau a dileu gwastraff;
- lleihau amrywiadau direswm a chynyddu dibynadwyedd; a
- chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r staff.

17 Mae timau gweithredol wedi cytuno ar flaenoriaethau ansawdd blynyddol â rheolwyr gwasanaethau a'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion. Mae'r blaenoriaethau'n gyson â'r Nodau Gwella Ansawdd a amlinellir yn y Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd ac maent yn cael eu llywio gan y

blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithgareddau gwella ansawdd, fel y nodir bob blwyddyn yn y Cynllun Blynyddol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd gyda'r bwriad o fwydo'r hyn a ddysgir i ddatblygiad y System Rheoli Ansawdd newydd. Mae cynnydd o ran cytuno ar y dull System Rheoli Ansawdd newydd wedi ei ohirio oherwydd COVID-19, ond mae'r gwaith ar y gweill yn awr.

## Rheoli risgiau

18 **Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth rheoli risgiau clir ac mae wedi egluro ei barodrwydd i dderbyn risg yn ddiweddar. Fodd bynnag, cyfyngir ar sicrwydd i'r Bwrdd gan anghysondebau wrth reoli risgiau gweithredol, methiant i ddiweddaru cofrestrau risgiau a dryswch ynghylch cyfrifoldeb am risgiau.**

19 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth rheoli risgiau ar waith, ac mae cynlluniau i adolygu hyn yn ystod 2021-22. Hefyd, adolygodd y Bwrdd Iechyd ei barodrwydd corfforaethol i dderbyn risg yn ystod 2021, a diweddarodd Pennaeth y Tîm Sicrwydd a Risg y canllawiau i'r Bwrdd mewn cysylltiad â goddefgarwch y Bwrdd Iechyd a'i barodrwydd i dderbyn risg.

20 Yn ein Hadroddiad Asesu Strwythuredig 2019, gwnaethom adrodd fod y Bwrdd Iechyd yn archwilio ffyrdd y gellid gwella Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn cefnogi'r broses o roi'r strategaeth ar waith o 2020 ymlaen. Gohiriwyd y gwaith hwn dros dro oherwydd COVID-19. Gwnaethom gyflwyno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd rhyngweithiol wedi ei adfywio i'r Bwrdd ym mis Medi 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi 17 o brif risgiau i gyflawni ei amcanion strategol adnewyddedig, a phenodi unigolion sy'n gyfrifol am brif risgiau ar gyfer pob un ohonynt, fel y nodwyd yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae'r unigolion sy'n gyfrifol am risgiau a'u timau wrthi'n gweithio i nodi'r trefniadau rheoli cysylltiedig, sicrwydd a bylchau mewn rheolaethau ar hyn o bryd.

21 Mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Sicrwydd a Risg pwrpasol sydd â phum aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn (WTE) (gan gynnwys un sy'n aelod o staff cymorth cyfwerth ag amser cyflawn). Mae'r Tîm yn darparu hyfforddiant rheoli risgiau i'r Bwrdd yn ogystal ag i staff gweithredol a chorfforaethol. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant rheoli risgiau cyn cael mynediad i fodiwl Risk yn DATIX. Dywedodd y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu a'r Tîm Llawdriniaethau Cyffredinol, sef y ddau faes olrhain yn ein hadolygiad, eu bod yn cael cymorth rheolaidd i reoli risgiau gan y tîm corfforaethol. Mae'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol wedi gofyn am hyfforddiant gloywi ar barodrwydd i dderbyn risg a hefyd fod y Tîm Sicrwydd a Risg yn bresennol yng ngrwpiau ansawdd, diogelwch a phrofiad y gyfarwyddiaeth a'r ysbyty.

22 Mae'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad[1] wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r holl risgiau ansawdd a diogelwch ac mae'n craffu'n effeithiol ar y materion hyn. Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol bob mis, gan ddefnyddio cylch gorchwyl ffurfiol i'w hadolygu. O'r risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Mai 2021), priodolwyd 41% ohonynt yn uniongyrchol i ansawdd a diogelwch gwasanaethau cleifion, gyda goblygiadau cysylltiedig mewn 15% arall.

23 Ceir adroddiadau at wraidd y mater sy'n llawn gwybodaeth i feysydd risgiau penodol ymhlith agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad. Cafodd dau adroddiad o'r fath eu cynnwys yng nghyfarfod y Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad ym mis Awst 2021, yr oedd un ohonynt ar Ganser a'r llall ar Strôc. Nododd y ddau ddarlun clir o'r materion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau yn y meysydd hyn, gan ddarparu sail ar gyfer trafodaeth wybodus. Tynnodd aelod annibynnol sylw at ddiffyg pwyslais ar yr hyn yr oedd cleifion yn ei feddwl am ganlyniadau eu triniaeth a phwysigrwydd cynnwys eu persbectif wrth adrodd ar ansawdd gwasanaethau.

24 Fodd bynnag, cododd rhai aelodau o'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, bryderon yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol ym mis Mai 2021 am y potensial y gall risgiau gyfuno gan achosi canlyniadau sylweddol i'r gwasanaethau a ddarperir. Mae rhai risgiau hefyd yn cael eu rheoli ar wahân, gan wahanol safleoedd, heb gydlynu. Yng nghyfarfod mis Awst y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch cofnodi risgiau fwy nag unwaith mewn cofrestrau risgiau gweithredol. Mae cyfle i ddod â'r risgiau hyn at ei gilydd, ac mae hynny'n cael ei archwilio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Bydd y bwriad i sefydlu fforymau ansawdd a diogelwch yn y sir yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn hefyd.

25 Mae enghraifft o'r uchod yn ymwneud ag Uned Dydd Cemotherapi Ysbyty Cyffredinol Bronglais ble ceir diffyg preifatrwydd i gleifion oherwydd bod yr ardal driniaeth hefyd yn gweithredu fel ffordd drwy'r ysbyty. Mae hyn hefyd yn cynyddu'r risg y bydd cleifion, yn enwedig y rhai sydd ag imiwnedd gwan, yn cael haint yn yr ysbytai. Nodwyd y ffactorau hyn fel risg coch yn ffurfiol ym mis Mai 2015 (Cyfeirnod Risg Corfforaethol 55). Ym mis Mai 2021, nid oedd cofnod cofrestr risgiau yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol wedi ei ddiweddaru ers mis Medi 2020. Awgrymodd ein trafodaeth â thîm rheoli Ysbyty Cyffredinol Bronglais efallai fod dryswch ynghylch ai staff y safle neu dîm y gyfarwyddiaeth oedd yn gyfrifol am ddiweddaru'r gofrestr risgiau. Disgrifir risgiau yn y gofrestr risgiau yn ôl eu gallu i ddod ag enw drwg yn bennaf, yn hytrach nag o ran eu goblygiadau o ran urddas a diogelwch y cleifion. Nid yw'r wybodaeth ddiweddaraf am risgiau yn rhoi

[1] Y Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad yw enw'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn awr. Gweler **paragraff 74.**

naratif clir dros amser ac nid oes cofnod o'r camau sylweddol a gymerwyd i liniaru risgiau yn ystod y pandemig.

26 Canfu ein gwaith hefyd nad yw rhai cofnodion risgiau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r gofynion. Noda adroddiad mis Mehefin 2021 yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol i'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad y bu naw risg a ddosbarthwyd yn risgiau coch nad oeddent wedi eu diweddaru ers 2020 er bod nifer o reolwyr gweithredol wneud dweud bod angen gwneud hynny. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau sylweddol yn ymwneud â'r posibilrwydd o niwed i gleifion, a dylid eu diweddaru'n rheolaidd i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n briodol. Adroddwyd ar y mater yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021 hefyd, er na nodwyd graddau na hyd y broblem. Cyfeiria yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Lywodraethu Ansawdd a Diogelwch (Ionawr 2021) at y mater hwn hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y mater hwn a'r angen i reolwyr gweithredol gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli risgiau. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd a'i dîm yn cynnal gweithdy ar gyfer y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'i uwch-reolwyr ar draws y strwythur gweithredol ynghylch ymwybyddiaeth o risgiau.

27 Yn rhan o ddeunydd olrhain yr adolygiad hwn, edrychwyd ar gofrestrau risgiau y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu a'r cofrestrau risgiau ar gyfer Llawdriniaethau Cyffredinol. Er ei bod yn ymddangos bod cofrestr risgiau'r Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu yn cyfuno risgiau o feysydd sydd yn ei strwythur, nid yw'n cynnwys y ddwy risg a gofnodir yng nghofrestr risgiau y Tîm Llawdriniaethau Cyffredinol. Dim ond dwy risg sydd yn yr olaf, un a nodwyd ym mis Mehefin 2018 a'r llall ym mis Gorffennaf 2020, sy'n rhoi'r argraff nad yw'n ddogfen 'fyw'.

# Diwylliant sefydliadol a gwella ansawdd

28 Dylai sefydliadau'r GIG ganolbwyntio yn barhaus ar wella ansawdd gofal a defnyddio adnoddau cyfyngedig i sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn hybu diwylliant ansawdd a diwylliant diogelwch sy'n canolbwyntio ar gleifion, gan gynnwys gwella cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, cymryd rhan mewn prosesau gwella ansawdd sy'n rhan annatod o strwythurau llywodraethu ehangach, gwrando a gweithredu ar sylwadau gan staff a chleifion, a dysgu gwersi.

29 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar wella ansawdd a bod ganddo adnoddau pwrpasol i'w gefnogi. Bydd y dull newydd o wella ansawdd yn dibynnu i raddau helaeth ar allu staff unigol ac ymrwymiad a rennir i'r dull gweithredu. Mae gwerthoedd ac ymddygiad sefydliadol wedi eu sefydlu'n dda, ac mae mwyafrif y staff yn hyderus ar y cyfan ynglŷn ag adrodd am eu pryderon. Yn ogystal â hynny, mae gwrando ar brofiadau cleifion a staff, gan ddysgu oddi wrthynt, yn cael eu hymwreiddio ymhellach yn null y sefydliad.**

## Gwella ansawdd

30 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar wella ansawdd ac mae'n ailstrwythuro'r Tîm Gwella Ansawdd penodedig er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ag amcanion strategol y sefydliad. Mae'r rhaglen archwilio clinigol yn cael ei sefydlu mewn amgylchiadau heriol ac mae prydlondeb adolygiadau marwolaethau Cam Un yn gwella.**

### Adnoddau i gefnogi'r broses gwella ansawdd

31 Mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwella Ansawdd pwrpasol o 11.6 aelod staff cyfwerth ag amser cyflawn (WTE), gyda 12 aelod o staff. Fodd bynnag, effeithiwyd ar ei gapasiti oherwydd bod mwyafrif y tîm wedi ei ddefnyddio i gefnogi ymateb gweithredol y Bwrdd Iechyd i COVID-19 a bod nifer o staff wedi derbyn swyddogaeth mewn mannau eraill yn y sefydliad bellach. Mae'r tîm yn ailstrwythuro i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac i sicrhau cysondeb ag amcanion strategol y sefydliad.

32 Darperir hyfforddiant gwella ansawdd drwy Raglen Galluogi Gwella Ansawdd yn Ymarferol (EQIiP). Cofnodir staff hynny sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae'r Rhaglen yn cefnogi timau gweithredol amlddisgyblaethol i ddatblygu syniadau gwella sy'n gysylltiedig â phum Nod Gwella Ansawdd y sefydliad, neu tuag at amcan strategol. Er na ellid cynnal Rhaglen EQIiP yn ystod y pandemig yn ôl y bwriad, mae'r Bwrdd Iechyd yn treialu hyfforddiant rhithwir a ddylai ganiatáu iddo ailddechrau hyn. Gwerthusodd Prifysgol Abertawe y Rhaglen yn ystod 2020. Roeddent yn cydnabod bod staff wedi ymgysylltu â nifer o fentrau llwyddiannus er bod ymrwymiadau croes wedi effeithio ar y graddau y gallent gymryd rhan yn y gwaith. Canfu'r gwerthusiad y bu anawsterau o ran sicrhau bod grwpiau meddygol a grwpiau eraill o staff yn cymryd rhan, a oedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau dull tîm o ymdrin â'r gwaith. Er gwaethaf effaith gyfyngol y pandemig ar y dull hwn o ymdrin â newid sefydliadol, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal a chefnogi ei ddatblygiad yn y dyfodol.

33 Mae amrywiaeth o raglenni arweinyddiaeth a mentoriaeth glinigol sy'n rhoi'r sgiliau i'r staff y bydd eu hangen arnynt i fod yn arweinwyr effeithiol. Mae system Employee Staff Record yn cynnwys cofnodion o'r staff Bwrdd Iechyd hynny sy'n cymryd rhan yn Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd ar lefel efydd, ac eithrio staff meddygol, er nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu dweud pa gyfran o'r staff oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw.

34 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Rhaglen Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth gydag arweinydd Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol dynodedig. Bydd y Rhaglen yn tanategu'r strategaeth hirdymor drwy ganolbwyntio ar drefnu gwasanaethau sy'n ymwneud â chanlyniadau sy'n bwysig i bobl.

## Archwiliad Clinigol

35 Mae archwilio clinigol yn ffordd bwysig o roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Fel gyda byrddau iechyd eraill, bu gostyngiad sylweddol yn y galw am weithgarwch archwilio clinigol yn ystod y pandemig, yn ogystal â gostyngiad yn yr adnoddau a fu ar gael. Serch hynny, mae'r Tîm Archwilio Clinigol wedi parhau i gynnal nifer o brosiectau, gan gynnwys 13 o archwiliadau cenedlaethol. Bu 40 o archwiliadau clinigol lleol a 34 o archwiliadau clinigol cenedlaethol yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2019 a 2021.

36 Mae swyddi gwag a'r defnydd o staff i swyddogaethau hanfodol yn rhan o'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar allu'r Tîm Archwilio Clinigol (9.8 WTE). Fodd bynnag, yn dilyn proses recriwtio, mae'r tîm bron yn meddu ar nifer llawn o staff. Penodwyd Cyfarwyddwr Clinigol newydd ar gyfer Archwilio Clinigol ym mis Chwefror 2021, i weithio gyda'r Rheolwr Archwilio Clinigol, er mwyn helpu i gryfhau'r rhaglen archwilio clinigol.

37 Dylid canmol y Tîm Archwilio Clinigol am ddatblygu'r flaenraglen, gan weithio gyda thimau clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Panel Craffu ar Archwiliadau Clinigol, y Panel Cynghori ar Arferion Clinigol Effeithiol a grwpiau ansawdd a diogelwch gweithredol. Mae'r Panel Craffu ar Archwiliadau Clinigol yn ymgysylltu â gwasanaethau clinigol er mwyn adolygu'r cynlluniau gwella ar gyfer yr archwiliadau hynny a fu'n destun pryder. Roedd rhaglen archwilio clinigol 2021-22 i fod i gael ei hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 24 Awst 2021, ond nid oedd y gwaith o gwblhau'r rhaglen wedi ei orffen erbyn yr amser hwnnw.

38 Mae'r Tîm Archwilio Clinigol wedi ailddechrau ei raglen o Gyfarfodydd Archwilio Ysbytai Cyfan yn unol â chynlluniau cyn COVID-19. Mae'r cyfarfodydd yn galluogi clinigwyr i drafod amrywiaeth o feysydd archwilio clinigol a rhannu dysg, ac maent yn cael eu cefnogi'n dda. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad eleni (Mawrth 2021 a Mehefin 2021), a chytunwyd ar bedwar arall. Roedd yr agenda ar gyfer Cyfarfod Archwilio Ysbytai Cyfan, Ysbyty Cyffredinol Bronglais, ym mis Mehefin 2021, er enghraifft, yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- priodoldeb a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir am geisiadau uwchsain ar gyfer thrombosis gwythiennau dwfn;
- Archwiliad Sefydliadol y Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Strôc; a
- dogfennu'n briodol y Gentamicin a roddir, gan fonitro yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.

39 Mae'r Tîm Llawdriniaethau Cyffredinol, un o'r gwasanaethau olrhain yn ein hadolygiad, wedi dangos ymrwymiad cryf i ymgysylltu a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn eang. Mae'r Tîm yn cynnal cyfarfodydd adrannol drwy'r flwyddyn er mwyn trafod data allweddol.

## Adolygiadau o farwolaethau ac afiachedd

40 Mae cyfarfodydd adolygu marwolaethau ac afiachedd yn darparu dull systematig fel y gall gymheiriaid adolygu digwyddiadau andwyol, cymhlethdodau neu farwolaethau er mwyn dysgu a myfyrio ar ofal cleifion, gan ei wella. Ym mis Awst 2018, dechreuodd y Bwrdd Iechyd broses newydd ar gyfer adolygiadau Cam Un[2] yn unol â byrddau iechyd eraill yng Nghymru, ac mae hyn wedi gwella prydlondeb yr adolygiadau hyn. Cymeradwyodd y Grŵp Adolygu Marwolaethau a'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad broses ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer adolygiadau marwolaethau Cam Dau, ac mae wedi ei mabwysiadu gan bob safle.

41 Mae'r Grŵp Adolygu Marwolaethau yn darparu adroddiad chwarterol i'r Panel Cynghori ar Arferion Clinigol Effeithiol, y mae'n is-grŵp ohono. Mae'n canolbwyntio ar y camau i wella ffigurau Adolygu Marwolaethau Cyffredinol ac mae'n cefnogi rhannu dysg. Adroddodd timau rheoli y Gyfarwyddiaeth a'r ysbyty welliannau sylweddol yn y prosesau sy'n tanategu adolygiadau marwolaethau ac afiachedd.

42 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiadau cyfnodol o farwolaethau sy'n edrych ar yr effaith ar gleifion sy'n aros am driniaeth yn ystod pandemig COVID-19. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol ganfyddiadau rhagarweiniol a'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau o farwolaethau sy'n edrych ar yr effaith ar gleifion sy'n aros am driniaeth yn ystod pandemig COVID-19 yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd ym mis Hydref 2020. Dangosodd y dadansoddiad, er bod y gyfradd farwolaethau yn sylweddol uwch ym mis Mawrth 2020 o'i chymharu â'r cyfnod blaenorol, ei bod yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru dros y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2020. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd Iechyd yn penodi arweinydd ar gyfer adolygiadau marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys adolygiadau noscomiaidd. Y Tîm Sicrhau Ansawdd sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r adolygiadau noscomiaidd.

[2] Adolygir yr holl farwolaethau ym mhob ysbyty acíwt yng Nghymru ac mae byrddau iechyd yn estyn hyn fwyfwy i gynnwys marwolaethau mewn ysbytai cymunedol. Mae adolygu nodiadau achos marwolaethau yn broses dau gam. Y cam cyntaf yw adolygu marwolaethau cyffredinol, sef gwirio pob marwolaeth yn y lle cyntaf. Pan nodir pryderon, mae achos y person hwnnw'n ddarostyngedig i adolygiad Cam Dau mwy manwl. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o achosion sylfaenol y gellir ei gydgysylltu â phroses Gweithio i Wella pan fo hynny'n angenrheidiol.

## Gwerthoedd ac ymddygiad

43 **Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig sy'n darparu sail ar gyfer cyflwyno'r dull gwella ansawdd newydd, ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i adrodd am bryderon.**

44 Yn 2015-16, ymgynghorodd y Bwrdd Iechyd â dros 2,000 o aelodau staff, a datblygodd fframwaith o naw gwerth ymddygiad staff trosfwaol a thri gwerth sefydliadol:

- rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn;
- ymdrechu i ddarparu a datblygu gwasanaethau rhagorol; a
- gweithio gyda'n gilydd i fod gystal â phosibl.

45 Fe'u defnyddiwyd fel canolbwynt ar gyfer Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd 2018-21 ac maent yn ganolog i strategaeth a blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y tair blynedd nesaf. Byddant hefyd yn tanategu'r System Rheoli Ansawdd newydd a fydd yn dibynnu ar ddiwylliant o fod yn agored, yn dryloyw, ac o ddysgu pan fo pethau'n mynd o chwith.

46 Canfu ein harolwg[3] o staff gweithredol sy'n gweithio ar draws y tîm llawdriniaethau cyffredinol (gweler y canlyniadau yn **Atodiad 2**) fod y staff yn teimlo'n hyderus yn gyffredinol ynghylch adrodd am eu pryderon. O'r ymatebwyr i'r arolwg, roedd 21 o'r 37 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn annog y staff i adrodd camgymeriadau, damweiniau a fu bron a digwydd neu ddigwyddiadau. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (24 allan o 38) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, damwain a fu bron a digwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg. Roedd mwyafrif y staff (27 o'r 38 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn gweithredu er mwyn sicrhau nad yw camgymeriadau, damweiniau a fu bron a digwydd na digwyddiadau a adroddwyd yn digwydd eto.

47 Dangosodd ein Hadroddiad Asesiad Strwythuredig 2019 bod y cydymffurfio cyffredinol â'r hyfforddiant statudol a gorfodol yr ail uchaf yng Nghymru (ar sail y ffigurau ar gyfer Gorffennaf 2019). Y gyfradd arfarnu staff, 97%, oedd yr uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, arweiniodd pwysau llwyth gwaith sy'n deillio o swyddi staff meddygol gwag at gydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol i staff meddygol sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef dim ond 34%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wella cydymffurfio, ac mae'n gadarnhaol bod y Gyfarwyddiaeth Ystadau wedi defnyddio dulliau rhithwir yn llwyddiannus i'w

[3] Gwnaethom wahodd staff gweithredol sy'n gweithio ar draws y tîm llawdriniaethau cyffredinol i gymryd rhan yn ein harolwg o agweddau ar-lein ynghylch trefniadau ansawdd a diogelwch cleifion. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd gyhoeddusrwydd i'r arolwg ar ein rhan. Er nad yw'r canfyddiadau'n debygol o gynrychioli safbwyntiau yr holl staff ar draws y tîm llawdriniaethau cyffredinol, rydym wedi eu defnyddio i ddangos materion penodol.

gwneud yn haws i staff ddilyn hyfforddiant. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried gwneud defnydd ychwanegol o'r dull hwn.

## Gwrando a dysgu o sylwadau

48 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o gyfleoedd er mwyn gwrando ar brofiadau cleifion a staff, gan ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu yn cryfhau ymhellach ei ddull o helpu er mwyn sicrhau camau cadarn mewn ymateb i achosion sy'n cynnwys dysgu allweddol fel bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hamlygu a'u cyfleu.**

### Profiadau Cleifion

49 Pennodd y Bwrdd Iechyd darged gwella o 75% eleni o ran cydymffurfio â'r gofyniad i ymdrin â chwynion o fewn 30 niwrnod. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau perfformiad rheolaidd sy'n cynnwys manylion am reoli cwynion. Mae perfformiad wedi amrywio'n sylweddol yn ystod cyfnodau olynol ac mae effaith COVID-19 ar berfformiad wedi ei chynnwys yn yr adroddiadau. Ym mis Mai 2021, 70% oedd y gyfradd gydymffurfio o fewn 30 niwrnod, ac roedd y Bwrdd Iechyd yn yr wythfed safle allan o 10 corff GIG Cymru.

50 Cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd Siarter Gwella Profiad Cleifion ym mis Ebrill 2020, yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau ac yn derbyn gofal. Fe'i datblygwyd â chymorth oddi wrth gleifion, cymunedau lleol a staff. Mae'n nodi pum 'profiad bob amser', ac mae un ohonynt yn nodi y bydd y Bwrdd Iechyd bob amser yn 'eich cefnogi a'ch annog i rannu eich profiadau gofal iechyd, y da a'r drwg, er mwyn ein helpu i wella'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau'. Mae Cynllun Profiad Cleifion 2020-23 yn rhestru'r blaenoriaethau allweddol wrth gyflwyno'r Siarter, er nad yw'n darparu manylion cyd-destunol megis sut a pham y cafodd ei ddatblygu na sut y dylid monitro ac adrodd y cynnydd.

51 Mae Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu y Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad yn edrych ar achosion pan fo dysgu sylweddol wedi digwydd ac yn archwilio camau gweithredu arfaethedig i ddod i gasgliad ynghylch a ydynt yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â risgiau. Yn hyn o beth, gall roi persbectif gwybodus i'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad am unrhyw sicrwydd a ddarperir. Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu a bod pryderon yn cael eu cyfleu i bwyllgorau a gweithgorau. Mae wedi cael canlyniadau gwaith i adolygu a rhesymoli arolygon cleifion presennol ac mae wedi cynnig cynorthwyo gwasanaethau i gynnal arolygon a fydd yn eu galluogi i wella profiadau cleifion.

52 Mae Cadeirydd presennol yr Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu yn Aelod Annibynnol sydd wedi ymgymryd â'r swyddogaeth am gyfnod o 12 mis er mwyn cryfhau ymhellach y ffordd y mae'r is-bwyllgor yn archwilio risgiau, camau gweithredu arfaethedig, a'r hyn a ddysgwyd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, bydd adolygiad o'r is-bwyllgor a rhoddir ystyriaeth i fudd penodi cadeirydd clinigol. Mae'r Aelod

Annibynnol hefyd yn gwasanaethu fel Hyrwyddwr Gweithio i Wella. Bydd yr Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ei waith i'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad yn 2022.

53 Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau Gwella Profiadau Cleifion gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiadau Cleifion ym mhob cyfarfod, yn ogystal ag adroddiad blynyddol. Cyfeiria adroddiadau cyfredol at ystod gynhwysfawr o faterion gan ddefnyddio nifer o wahanol ffynonellau gwybodaeth, er nad oes gan y fformat grynodeb clir o ganfyddiadau a chamau gweithredu allweddol. Mae'r Tîm Profiad Cleifion yn frwdfrydig am y posibilrwydd o adroddiadau thematig a fydd yn cael eu darparu drwy'r broses o weithredu meddalwedd profiad cleifion sydd ar ddod.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn sylwadau gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth o nifer o adnoddau, gan gynnwys y prawf ffrindiau a theulu (FFT); canmoliaeth, pryderon a chwynion; sylwadau'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion; arolygon lleol, arolwg GIG Cymru gyfan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae FFT yn rhoi cyfle i bobl roi sylwadau am eu profiad o'r gwasanaethau drwy ofyn y cwestiwn 'pa mor debygol ydych chi o argymell ein gwasanaeth i'ch ffrindiau a'ch teulu os bydd angen gofal neu driniaeth debyg arnynt?'. Nod y Bwrdd Iechyd oedd cyflwyno'r dull ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau ac adrannau erbyn diwedd 2019-20.

55 Dangosodd y ffigurau a adroddwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai a 30 Mehefin 2021 gynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd (697 o gysylltiadau, i fyny o 481 yn ystod y cyfnod blaenorol). Y categorïau a oedd yn dangos y cynnydd mwyaf oedd:

- asesu clinigol a phryderon ynghylch triniaethau (i fyny 62%); a
- phryderon sy'n ymwneud ag ymddygiad, agwedd a chyfathrebu (cynnydd o 45%).

56 Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i nodi themâu a thueddiadau, y gellir eu defnyddio yn eu tro i lywio'r camau a gymerir. Er enghraifft, mewn ymateb i'r materion sy'n ymwneud ag agwedd ac ymddygiad y staff, mae Tîm y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn datblygu rhaglen hyfforddi gofal cwsmeriaid gyda'r bwriad o'i lansio ym mis Medi 2021. Bydd y sylwadau profiadau cleifion a dderbynnir yn y maes hwn yn dylanwadu'n drwm ar ei chynnwys a'i darpariaeth. Gan ddefnyddio dulliau amrywiol, mae amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi rhoi sylwadau i'r Bwrdd Iechyd. Er enghraifft:

- mae'r Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu yn defnyddio'r Archwiliad Boddhad Cleifion, sy'n llywio proses adrodd flynyddol y Safonau Iechyd a Gofal;
- Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion a Mesurau Profiad a Adroddwyd gan Gleifion yn unol â'r rhaglen genedlaethol;
- trwy gyflwyno cynllun 'Y Claf sy'n Gwybod Orau', sy'n grymuso cleifion i wneud penderfyniadau a chael gwybodaeth am eu cynllun gofal;

- darparu holiaduron boddhad defnyddwyr, gan eu rhyddhau gydag amlenni rhagdaledig; a
- thrwy sylwadau a gesglir gan y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion.

## Gwrando ar y staff

57 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wrando ar y staff fel y gall ddysgu o'u profiadau a'u pryderon. Mae'r Cadeirydd a'r Tîm Gweithredol wedi ymrwymo i sicrhau bod diwylliant y gall dysgu ffynnu ynddo, ble mae staff yn teimlo'n gyfforddus wrth godi pryderon. Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun Codi Llais Heb Ofn er mwyn cefnogi Gweithdrefn Codi Pryderon Cymru gyfan. Ei nod yw cefnogi staff i siarad am eu pryderon a'u materion â'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud.

58 Mae arolwg staff Cymru gyfan y GIG ac arolwg staff ei hun y Bwrdd Iechyd yn rhoi persbectif a ddefnyddir i helpu i fynd i'r afael â materion ac i gryfhau ansawdd gwasanaethau. Yn ddiweddar, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd ei ail Adroddiad Darganfod,[4] sy'n canolbwyntio ar wrando ar brofiadau'r staff yn ystod y pandemig, a'u hadrodd nhw drwy gyfrwng clipiau fideo a phodlediadau gan y staff yn bennaf. Mae hefyd wedi sefydlu grŵp gorffwys ac adfer er mwyn clywed gan staff am eu profiadau a'u hanghenion. Bydd y gwaith hwn yn cyfuno i helpu i lywio'r ffordd y mae'n parhau i gefnogi'r staff. Rhannwyd rhywfaint o'r sylwadau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Un o gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant yw defnyddio'r canfyddiadau hyn i ddeall mwy am brofiad y staff fel y gellir llywio dulliau o orffwys, adfer a gwella yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

59 Yn ystod camau cynnar pandemig COVID-19, sefydlodd y Bwrdd Iechyd fforwm ar gyfer y gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol sydd wedi ei alluogi i ymgysylltu'n effeithiol iawn â staff a chleifion. Bydd y fforwm yn dod yn rhan o Grŵp Cynghori ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, a fydd yn cynnwys staff a all roi persbectif ar draws y nodweddion gwarchodedig cyfreithiol. Mae gan y grŵp fynediad uniongyrchol i'r Bwrdd ac mae'n darparu cyfle pwysig i gyfathrebu, gwrando ar bryderon staff a rhoi sicrwydd.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno rhaglen fentora o chwith. Mae pob aelod Bwrdd wedi cael mentor staff neilltuedig i'w helpu i ddatblygu dealltwriaeth o brofiadau'r staff ar draws y sefydliad. Bwriedir cynnal sesiwn ganol tymor ym mis Hydref fel y gall aelodau'r Bwrdd rannu'r hyn y maent wedi ei ddysgu hyd yma.

[4] Ym mis Gorffennaf 2020, lluniodd Grŵp Llywio Trawsnewid y Bwrdd Iechyd ei Adroddiad Darganfod Strategol cyntaf er mwyn nodi dysgu cychwynnol o'r ymateb i'r pandemig y gellir ei chymhwyso i gyflymu'r broses o gyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal.

### Straeon cleifion

61 Mae'r Tîm Profiad Cleifion wedi parhau i gasglu straeon cleifion a staff yn ystod pandemig COVID-19, sy'n symud yn gyflym, fel persbectif hanfodol ar wasanaethau a sut y gellir eu gwella. Er mwyn sbarduno gwelliannau i wasanaethau, mae'r Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu yn defnyddio straeon cleifion i rannu profiadau ac i ddangos ei ganfyddiadau. Mae straeon cleifion hefyd yn rhan annatod o agendâu'r Bwrdd fel mater o drefn.

### Teithiau Cerdded diogelwch Cleifion

62 Fel cyrff iechyd eraill, bu'n rhaid gohirio'r rhaglen ymweliadau aelodau gweithredol ac annibynnol ffurfiol oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r Teithiau Cerdded yn werthfawr oherwydd eu bod yn rhoi cyfle pwysig i aelodau annibynnol a'r tîm gweithredol glywed safbwyntiau a phryderon y staff a chleifion mewn ffordd anffurfiol. Mae'r Teithiau Cerdded yn arfer cael eu rhaglennu drwy'r flwyddyn er mwyn darparu cwmpas a chyfleoedd digonol. Datblygir cynlluniau i adfer y rhain yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, mae aelodau'r Bwrdd wedi cynnal presenoldeb gweladwy yn ystod y pandemig drwy seilio eu hunain mewn gwahanol leoliadau mewn ysbytai a thrwy ymweliadau â meysydd penodol. Er enghraifft, gwnaeth Cadeirydd y Bwrdd Iechyd nifer o ymweliadau ar draws safleoedd yn ystod y pandemig i drafod y cymorth sydd ar gael ar gyfer lles staff yn ystod y cyfnod hwn.

# Strwythurau a phrosesau llywodraethu

63 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae strwythurau a phrosesau sefydliadol ar lefel y bwrdd ac islaw lefel y bwrdd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel.

64 Canfuom fod **yr arweinyddiaeth a'r strwythurau corfforaethol wedi eu cryfhau a bod y Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Phrofiadau Cleifion wedi defnyddio ei hadnoddau'n effeithiol iawn trwy gydol y pandemig. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o sylw i arweinyddiaeth weithredol, adnoddau a threfniadau ar gyfer rheoli ansawdd a diogelwch.**

## Dylunio sefydliadol er mwyn cefnogi llywodraethu effeithiol

65 **Mae'r cyfrifoldeb corfforaethol am ansawdd a diogelwch cleifion wedi ei sefydlu'n glir ar draws y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol ac mae strwythurau llywodraethu wedi eu cryfhau, gyda phwyslais cynyddol ar effeithiolrwydd clinigol. Fodd bynnag, mae trefniadau ac adnoddau gweithredol clinigol yn anghyson ac mae angen eu datblygu ymhellach.**

## Cyfrifoldeb corfforaethol ac arweinyddiaeth

66 Ceir cydgyfrifoldeb clir am ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Mae cysoni amcanion strategol, amcanion cynllunio a nodau ansawdd i bortffolios gweithredol unigol wedi diffinio cyfrifoldeb unigol yn well.

67 Mae'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Phrofiadau Cleifion yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth gorfforaethol gref ar gyfer gwella ansawdd a diogelwch cleifion, gan gynnwys cyfrifoldeb am bryderon, digwyddiadau, ac ymdrin â chwynion, ac mewn cysylltiad â phrofiadau cleifion hefyd. Mae'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd a diogelwch, gan gynnwys gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Sicrwydd Gweithredol.

68 Canfu ein hadolygiad lleol o drefniadau ansawdd a diogelwch gweithredol y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn 2019 fod gwaith yn parhau i ddatblygu strwythur y Gyfarwyddiaeth Feddygol, er mwyn rhoi arweinyddiaeth feddygol gryfach i'r Bwrdd Iechyd ar draws meysydd gweithredol a phroffesiynol. Ers hynny, mae'r Cyfarwyddwr Meddygol wedi llwyddo i gryfhau yr arweinyddiaeth feddygol a datblygu diwylliant meddygol, sy'n canolbwyntio fwyfwy ar wella ansawdd a diogelwch cleifion. Mae tîm o gyfarwyddwyr meddygol dirprwyol a chynorthwyol yn darparu ymgysylltiad meddygol mewn amrywiaeth o feysydd. Mae tri dirprwy gyfarwyddwr meddygol sy'n cwmpasu gwasanaethau gweithredol, a thri chyfarwyddwr meddygol cynorthwyol ar gyfer cefnogi ansawdd a diogelwch, sef un ar gyfer pob un o'r canlynol: trawsnewid a gofal iechyd ar sail gwerth, ansawdd a diogelwch, a safonau proffesiynol. Cefnogir y rhain hefyd gan arweinwyr clinigol enwebedig, er enghraifft, archwiliad clinigol fel y cyfeirir ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn.

## Grwpiau corfforaethol ar gyfer llywodraethu a chynllunio o ansawdd

69 Cyfarfu'r Panel Arolygu Ansawdd Mewnol newydd am y tro cyntaf ym mis Medi 2020. Mae'n ategu prosesau adolygu allanol a mewnol ac yn nodi meysydd problemus yn weithredol ar draws y sefydliad. Mae aelodaeth y Panel yn cynnwys uwch-staff meddygol, cynrychiolwyr y Ddeoniaeth, staff o'r Tîm Gwella Ansawdd, Iechyd a Diogelwch, ac aelodau o'r Tîm Gweithredol. Mae'r Panel Arolygu Ansawdd yn craffu ar wybodaeth galed a meddal o bob rhan o'r sefydliad gyda'r bwriad o'i defnyddio i nodi meysydd y mae angen eu gwella a'u cefnogi, a nodi meysydd y ceir arferion da ynddynt hefyd.

70 Arweinir y Panel Ansawdd gan weithredwyr clinigol ac mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risg glinigol. Pan nad oes digon o gynnydd o ran mynd i'r afael â risgiau, bydd yr arweinwyr gwasanaeth perthnasol yn bresennol mewn Panel Ansawdd a arweinir gan y Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiadau Cleifion i roi rhagor o sylw i'r hyn y mae angen ei wneud i liniaru'r risg.

71 Sefydlwyd y Fforwm Arweinwyr Gwella Ansawdd ddiwedd 2020, ar ôl penodi'r Arweinwyr Gwella Ansawdd Clinigol ar draws gwasanaethau gweithredol yn gynharach yn y flwyddyn. Cadeirir y Fforwm gan y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol dros Ansawdd a Diogelwch a'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol dros Wella Ansawdd, gyda'r nod o sefydlu rhaglen waith i gynllunio a blaenoriaethu gweithgareddau Gwella Ansawdd.

72 Roedd yr Is-bwyllgor Ymarfer Clinigol Effeithiol yn is-bwyllgor i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd, ond rhoddwyd y gorau i weithredu yn 2020. Fe'i hailsefydlwyd yn ffurfiol fel y Panel Cynghori ar Arferion Clinigol Effeithiol ac fe'i ffurfiwyd ym mis Ionawr 2021. Diben y panel yw rhoi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr Meddygol mewn cysylltiad ag effeithiolrwydd clinigol. Mae'n cwmpasu nifer o feysydd cysylltiedig megis darparu canllawiau, cymhwyso canllawiau NICE, a datblygu polisïau clinigol. Mae'r Panel yn datblygu Fframwaith Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Clinigol a fydd yn gysylltiedig â strategaeth y Bwrdd Iechyd. Ei nod fydd cefnogi staff i archwilio a gwella ansawdd y gofal, drwy nodi a rhannu themâu, a defnyddio'r strwythurau ansawdd a diogelwch i ledaenu'r hyn a ddysgir.

## Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad y Bwrdd Iechyd

73 Ym mis Ebrill 2020, cytunodd y Bwrdd ar amrywiadau dros dro i'w drefniadau llywodraethu er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau yn chwim a lleihau llywodraethu biwrocrataidd diangen yn ystod y pandemig. Roedd y diwygiadau'n cynnwys newidiadau i drefniadau pwyllgor, gan gynyddu amlder y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd i unwaith bob mis er mwyn galluogi pwyslais arall ar COVID-19 a gofal nad yw'n gysylltiedig â COVID-19. Ers hynny, mae'r pwyllgor wedi ailddechrau cyfarfodydd bob deufis ac mae'r cadeirydd yn dal i fyny'n anffurfiol gyda'r swyddog gweithredol arweiniol perthnasol rhwng cyfarfodydd.

74 Arweiniodd dysgu o'r trefniadau llywodraethu yn ystod y pandemig a'r angen i adlinio pwyllgorau'n agosach at amcanion strategol a chynllunio y Bwrdd Iechyd at nifer o newidiadau i strwythur llywodraethu y Bwrdd Iechyd. Cytunodd y Bwrdd ar y rhain ym mis Gorffennaf 2021. Er mwyn adlewyrchu ei swyddogaeth yn fwy cywir i gael sicrwydd fel pwyllgor o'r Bwrdd, newidiwyd teitl y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd i'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad yn 2021.

## Yr Is-bwyllgor Ansawdd Gweithredol, Diogelwch a Phrofiad

75 Cyfunwyd nifer o is-bwyllgorau ansawdd gweithredol, diogelwch a phrofiad yn un is-bwyllgor ddwy flynedd yn ôl. Ymunodd yr is-bwyllgor Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu â'r trefniad yn fwy diweddar, gan gadw ei gyfarfodydd cyfarwyddiaeth ei hun. Is-bwyllgor i'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad yw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd Gweithredol ac mae'n defnyddio

dull adrodd eithriadau wrth ymdrin â risgiau, gyda sgyrsiau trawsbynciol am oblygiadau'r risgiau, ac mae'n mynd at wraidd meysydd risg penodol. Fodd bynnag, mae'r is-bwyllgor yn cael trafferth â phresenoldeb ei aelodau staff meddygol ac mae aelodau'n tueddu i gyflwyno materion heb wneud awgrymiadau ynghylch sut y gellid eu datrys.

## Grwpiau ansawdd a diogelwch yn y sir

76 Roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion yn bwriadu sefydlu grwpiau ansawdd a diogelwch yn y sir yn ystod 2020, ond bu'n rhaid gohirio hyn oherwydd y pandemig. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y broses o roi'r trefniadau hyn ar waith wedi dechrau. Bwriad y grwpiau sirol yw rhoi cyfle dysgu ychwanegol i'r staff drwy ddod â grwpiau ansawdd diogelwch cleifion lleol at ei gilydd ar lefel cyfarwyddiaeth. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod swyddogaethau penodol y gwahanol fathau o grwpiau ansawdd a diogelwch yn glir a'u bod yn cael eu cynnal dros amser.

## Grwpiau ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel Cyfarwyddiaeth, Arbenigedd ac Adrannol

77 Er mwyn tanategu gwaith pwyllgorau corfforaethol, mae grwpiau cyfarwyddiaeth yn gweithredu ar draws strwythur y Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau cyfarwyddiaeth yn parhau i fod yn amrywiol ac mae angen rhoi rhagor o sylw iddynt. Arweinir Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu gan gylch gorchwyl cynhwysfawr (a fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2017) ac agenda safonol. Mae'r Grŵp yn darparu adroddiad i'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol ar gyfer pob cyfarfod.

78 Amlygodd ein hadroddiad blaenorol ar drefniadau ansawdd a diogelwch gweithredol yr angen am ragor o gysondeb o ran dull gweithredu ar lefel weithredol. Canfu'r adroddiad fod y cyfarfodydd ansawdd a diogelwch penodedig mewn chwech o'r cyfarwyddiaethau yn cwmpasu ystod dda o feysydd, er bod y cyfarwyddiaethau hynny a oedd yn cyfuno'r agenda ansawdd a diogelwch yn eu cyfarfodydd cyffredinol yn llai cynhwysfawr o ran yr hyn a gwmpesir ganddynt. Ar draws pob cyfarwyddiaeth, nid oedd ystod yr hyn a drafodwyd yn gyson nac wedi ei safoni. Tynnodd Adroddiad Llywodraethu Diogelwch ac Ansawdd Archwilio Mewnol sylw at y mater hwn hefyd.

79 Nid oes gan Grŵp y Tîm Llawdriniaethau Cyffredinol, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu, gylch gorchwyl. Roedd yn anodd cael dogfennau ar gyfer y grŵp hwn. Wedyn, cawsom ddogfennau 'camau gweithredu a chofnodion' ar gyfer Grŵp Llawdriniaethau Cyffredinol y Tîm Marwolaethau ac Afiachedd. Mae'r nodiadau'n awgrymu bod y cyfarfodydd hyn yn cwmpasu agenda ehangach na marwolaethau ac afiachedd yn unig. Fodd bynnag, ceir diffyg manylion a naratif yn y nodiadau, ac nid ydynt yn rhoi hyder bod dull systematig yn cael ei ddefnyddio.

Nid oeddem yn gallu arsylwi ar un o gyfarfod y grŵp yn ystod ein gwaith maes oherwydd natur anaml ac ysbeidiol y cyfarfodydd.

80 Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd dempled agenda safonol a chylch gorchwyl safonol i'w mabwysiadu gan grwpiau lleol yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol, er nad ydynt wedi eu mabwysiadu ar draws y sefydliad eto. Mae'r templed hwn yn cynnwys pwyslais clir ar effeithiolrwydd clinigol, gan gynnwys archwilio clinigol, ymarfer clinigol, canllawiau clinigol gan gynnwys canllawiau NICE, a pholisïau corfforaethol sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol. Fodd bynnag, maent yn seiliedig ar ddull adrodd eithriadau, sy'n golygu bod angen dangos bod trefniadau sylfaenol yn gyson, yn gadarn ac yn aeddfed. Nid ydym yn hyderus y gellir dangos hyn bob amser.

81 Mae rhai timau gweithredol yn rheoli agweddau allweddol ar ansawdd a diogelwch yn rhan o gyfarfodydd tîm gweithredol misol, ond heb ddynodi arweinwyr penodol. Mae cefnogaeth gorfforaethol dda i dimau gweithredol ar lawer o faterion, er i staff ddweud yr hoffent gael mwy o gefnogaeth mewn cysylltiad â dadansoddeg data.

## Adnoddau ac arbenigedd i gefnogi llywodraethu o ansawdd

82 **Mae'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Phrofiadau Cleifion wedi defnyddio ei hadnoddau'n effeithiol yn ystod y pandemig, gan ddatblygu dulliau arloesol o dyfu ei gweithlu a'i chapasiti. Mae'n parhau i adolygu ei threfniadau gyda phwyslais ar gydweithio i gefnogi llywodraethu o ansawdd.**

83 Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Ansawdd a Phrofiadau Cleifion yw canolbwynt adnoddau corfforaethol ar gyfer llywodraethu o ansawdd a gwelliant. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion wedi datblygu'r adnoddau corfforaethol hyn dros amser ac mae'n parhau i adolygu sut y cânt eu defnyddio er mwyn sicrhau y gallant ymateb i anghenion datblygol y sefydliad a'r defnyddwyr gwasanaeth.

84 Ceir lefel dda o adnoddau staff ar draws Rheoli Cwynion, Rheoli Digwyddiadau, y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion a'r Ganolfan Gyswllt Cymorth i Gleifion, sy'n cynnwys cyfanswm o 21.2 WTE. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys yr adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion a'r Ganolfan Gyswllt Cymorth i Gleifion er mwyn cynyddu'r gallu i reoli'r broses o ddatrys pryderon, ac ymholiadau cleifion, yn gynnar.

85 Mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch sy'n cynnwys y Tîm Diogelwch a Sicrwydd Cleifion a'r Tîm Sicrhau Ansawdd System Wybodaeth. Mae'r Tîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch yn gweithio gyda chyfarwyddiaethau drwy fodel partner busnes, gan gysylltu â phob cyfarwyddiaeth sydd ag uwch-swyddog diogelwch a sicrwydd cleifion a enwyd. Mae'r Uwch-swyddog Diogelwch a Sicrwydd Cleifion yn cwrdd yn rheolaidd â phenaethiaid nyrsio y gyfarwyddiaeth (ac aelodau eraill o'r Driwriaeth os gwneir cais am hynny) i gefnogi'r agenda ansawdd a diogelwch cleifion. Mae'r Uwch-swyddog Diogelwch a Sicrwydd Cleifion (neu aelod o'r Tîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch yn ystod cyfnodau o

absenoldeb) yn bresennol hefyd yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch y gyfarwyddiaeth. Gall y swyddogion hyn ddwysáu materion a all beri pryder yn uniongyrchol i weithredwyr clinigol a rhoi gwybodaeth iddynt sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd a diogelwch hefyd fel mater o drefn. Maent hefyd yn cydlynu'r gwaith o ddarparu'r adroddiad sicrwydd rheolaidd i'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad.

86 Mae'r Tîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am nifer o weithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys Teithiau Cerdded, Gwiriadau Iechyd, Arsylwadau Gofal i Gleifion, a Phaneli Ansawdd gyda'r swyddogion gweithredol clinigol. Mae'n rheoli'r System Rheoli Pryderon (DATIX) ac yn rheoli digwyddiadau difrifol a digwyddiadau y gellir adrodd arnynt yn genedlaethol. Mae'r Tîm Sicrhau Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am ddylunio a gweithredu'r polisïau, y systemau a'r offer i alluogi'r staff i nodi, asesu a rheoli risgiau.

87 Mae'r Tîm Profiad Cleifion penodedig (4.2 WTE, 5 aelod o staff) wedi profi rhai newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ychwanegwyd pedwar prentis profiadau cleifion (yn ogystal â'r pum aelod presennol o staff) yn 2019, a disgwylir i brentisiaid eraill ddechrau gweithio ym mis Medi 2021. Mae'r swyddogaeth hon yn rhan o gynllun prentisiaid ehangach a llwyddiannus iawn y Bwrdd Iechyd. Cafwyd tros 600 o ymgeiswyr yn ystod y cylch recriwtio diweddaraf ac roedd 56 o brentisiaid i fod i ddechrau gweithio yn y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2021.

88 Mae'r prentisiaid yn cyfrannu ar draws gwaith y Tîm Profiad Cleifion, gan gynnwys:

- casglu a dadansoddi data, gan gynnwys ar gyfer arolygon cleifion:
- paratoi adroddiadau a chyfathrebiadau, gan ddefnyddio meddalwedd a chyfryngau cymdeithasol;
- cefnogi mentrau y mae'r Tîm Profiad Cleifion yn ymgymryd â nhw;
- casglu straeon cleifion ar gyfer fideo a darparu trawsgrifiadau digidol ar gyfer y Bwrdd;
- ymateb i ymholiadau a chysylltu ar draws y Bwrdd Iechyd a thu hwnt; a
- chynorthwyo i drefnu digwyddiadau tîm profiad cleifion.

89 Cyflwynodd y Tîm nifer o swyddi Swyddog Cyswllt Teulu (yn ogystal â'r pum aelod o staff y cyfeirir atynt yn y paragraff blaenorol) ar sail dros dro ar draws y Bwrdd Iechyd yn ystod pandemig COVID-19, a gafodd ei groesawu gan gleifion, eu teuluoedd a'r staff. Mae'r swyddi dros dro hyn wedi eu hestyn ac roeddent yn cael eu gwerthuso ar adeg ein gwaith maes, yn rhan o'r adolygiad presennol o'r 'tîm o amgylch y claf'. Os bydd y Bwrdd yn rhoi ei gymeradwyaeth, y cynllun yw y bydd swyddogaeth cyswllt teuluol a phrofiadau cleifion yn dod yn weithredol o fis Ebrill 2022.

90 Gan symud oddi wrth y timau corfforaethol, canfuom fod y trefniadau a'r adnoddau pwrpasol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion yn amrywio ar wahanol lefelau yn y sefydliad. Mae'r ddau faes olrhain yn ein hadolygiad yn dangos hyn. Yn y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu, y Pennaeth Nyrsio yw'r arweinydd dynodedig ar gyfer nyrsio, ansawdd a phrofiad, ac mae amser penodol i gyflawni'r

swyddogaeth arwain hon. Mae gan y Gyfarwyddiaeth arweinwyr ar gyfer gwahanol feysydd llywodraethu hefyd y mae ganddynt amser penodol ar gyfer y gwaith hwnnw. Nid oes gan y Tîm Llawdriniaethau Cyffredinol, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu, swyddogaeth arweiniol ddynodedig ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion.

91 Nid yw timau gweithredol yn gwybod o reidrwydd pa rai o'u staff sydd wedi cael hyfforddiant ar gwynion, digwyddiadau a dadansoddi achosion sylfaenol. Ar adeg ein hadolygiad, nid yw rhai staff wedi cael hyfforddiant mewn cysylltiad â defnyddio DATIX. Fodd bynnag, mae system DATIX newydd wedi ei lansio[5] ac mae rhaglen hyfforddiant sylweddol yn cael ei chynnal. Caiff cofnodion DATIX eu hadolygu a'u cymeradwyo gan arweinydd clinigol lleol er bod canfyddiadau ein harolwg yn dangos nad yw'r staff yn hyderus bob amser yr ymchwilir i'r materion yn unol â gofynion y sefydliad.

# Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

92 Ystyriodd ein gwaith a yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ar lefel weithredol a strategol yn rhoi pwyslais digonol ar ansawdd a diogelwch cleifion.

93 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da wrth ymwreiddio'r pedwar cwadrant niwed a'i fod wedi nodi metrigau allweddol. Fodd bynnag, mae adrodd materion risg i'r Bwrdd drwy is-bwyllgorau a phwyllgorau yn arwain weithiau at lastwreiddio'r pwynt sy'n cael ei gyfleu, a chyfyngedig yw mynediad at wybodaeth o ansawdd mewn cyfarwyddiaethau.**

## Gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd

94 **Mae'r Pedwar Cwadrant Niwed yn cael eu hymwreiddio'n systematig i lywio'r gwaith o gynllunio a monitro ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, ymddengys mai cyfyngedig yw'r gallu i gael gwybodaeth o ansawdd, a'r defnydd ohoni, ar lefel weithredol.**

95 Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion yn cyflwyno Adroddiadau Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch ym mhob cyfarfod Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad. Mae'r adroddiadau'n rhoi trosolwg o ansawdd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd drwy gyflwyno gwybodaeth o brosesau sicrwydd a strategaethau gwella ansawdd. Maent yn cynnwys gwybodaeth thematig am gwynion a digwyddiadau. Darperir manylion ychwanegol ar gyfer sesiynau'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad er mwyn galluogi trafodaeth fanylach ar faterion.

[5] Y Bwrdd Iechyd oedd y cyntaf i fynd yn fyw â system Rheoli Pryderon newydd Unwaith i Gymru.

96 Lansiodd y Bwrdd Iechyd Raglen System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru ar 1 Ebrill 2021 ac mae'n ei defnyddio ar draws y sefydliad. Nod y system yw sicrhau cysondeb wrth ddefnyddio'r offer electronig a ddefnyddir gan holl gyrff iechyd GIG Cymru at y diben hwnnw. Bydd y Rhaglen yn rhoi cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd gymryd rhan mewn nifer o ffrydiau gwaith cenedlaethol sydd â'r nod o ddatblygu prosesau a data cyson ac effeithiol a fydd yn cryfhau'r sicrwydd y gellir ei gymryd ohonynt.

97 Mae gweithredu Pedwar Cwadrant Niwed Llywodraeth Cymru yn her sylweddol i bob corff iechyd. Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu'r dull hwn yn systematig ar draws ei system ofal. Nododd 21 o fetrigau monitro i fesur y potensial am niwed, gyda'r bwriad o'u cynyddu dros amser. Cânt eu monitro a'u hadrodd i'r Bwrdd yn rhan o'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Er enghraifft, tynnodd yr Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 29 Gorffennaf 2021 sylw at ddau fetrig o bryder:

- Aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys am dros 12 awr (categori – niwed o wasanaethau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi eu llethu); ac
- aros dros 36 wythnos am driniaeth (categori – niwed yn sgil gostyngiad mewn gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau COVID-19) ac yn enwedig ar gyfer triniaeth gan ddarparwyr eraill.

98 Roedd y Pedwar Cwadrant Niwed yn nodwedd ganolog yng Nghynllun Gaeaf y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21, ac roeddent yn gysylltiedig â threfniadau gofal mewn ysbyty, gofal canolraddol a gofal hirdymor. Roedd y cynllun yn cynnwys rhestr o'r niweidiau posibl gyda thros 60 o gamau gweithredu a chynlluniau unigol fel camau lliniaru. Adroddwyd y cynllun i'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad a chafodd ei fonitro bob pythefnos o ran ei effaith ar fetrigau allweddol, gan gynnwys risgiau ansawdd a diogelwch.

99 Mae'r amcan cynllunio sy'n cyd-fynd â'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu proses yn ystod 2021-22 er mwyn cynnal cyswllt personol â'r holl gleifion sy'n aros am ofal dewisol ar hyn o bryd. Dylai'r broses helpu i sefydlu dull systematig o fesur niwed drwy ddwyn ynghyd niwed a asesir yn glinigol a niwed a asesir gan gleifion i lywio'r gwaith o flaenoriaethu rhestrau aros.

100 Gwnaethom arsylwi un o gyfarfodydd Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Gyfarwyddiaeth Gofal wedi ei Drefnu. Roedd y cyfarfod wedi ei gyfochri ag agenda sefydlog a oedd yn cynnwys manylion am ddigwyddiadau difrifol, cwynion a chanmoliaethau. Er bod gan bob cyfarwyddiaeth ddangosfwrdd ansawdd sydd ar gael drwy IRIS, ni chafodd ei adolygu yn ystod y cyfarfod a arsylwyd gennym. Hefyd, ar adeg ein gwaith, roedd y Bwrdd Iechyd yn aros am ddiwygiad system gan dîm Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru Llywodraeth Cymru er mwyn gallu creu dangosfwrdd cyson i ddefnyddwyr mewn cyfarwyddiaethau a gwasanaethau.

101 Mae Quality Assurance and Information System Team (QAIST), sef tîm DATIX gynt, yn datblygu. Mae'r tîm (pedwar WTE, â phedwar aelod o staff) yn canolbwyntio ar wybodaeth am ansawdd a diogelwch cleifion yn DATIX, yn hytrach

na gwybodaeth ehangach am ansawdd a diogelwch. Mae swyddi gwag yn y tîm wedi ei gwneud yn bosibl ailfeddwl sut y dylid defnyddio adnoddau. Dangosodd ein harolwg o adnoddau corfforaethol a gweithredol ar gyfer llywodraethu o ansawdd y byddai'r staff yn hoffi cael mwy o gymorth wrth ddefnyddio data i'w helpu i reoli eu gwasanaethau.

## Cwmpasu materion ansawdd a diogelwch cleifion

102 **Caiff agendâu pwyllgorau corfforaethol eu rheoli'n dda, ac mae cyfarfodydd yn caniatáu cwmpas da o'r meysydd dan sylw, ond mae'r trefniadau ar gyfer grwpiau gweithredol yn fwy amrywiol. Mae adrodd i'r Bwrdd am faterion sy'n ymwneud â risg drwy is-bwyllgorau a phwyllgorau yn arwain weithiau at lastwreiddio'r pwynt sy'n cael ei gyfleu. Datblygir y modd o adrodd ar berfformiad fel bod amcanion strategol yn fwy cyson â chanlyniadau ansawdd.**

103 Roedd cyfarfodydd misol y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd yn ystod y pandemig yn rhoi mwy o gyfle i fynd i'r afael â materion sy'n deillio o COVID-19 gan sicrhau hefyd fod rhaglen waith reolaidd y Pwyllgor yn cael sylw. Roedd y trefniad yn helpu i sicrhau bod aelodau annibynnol yn cael cyfleoedd aml a ffurfiol i ofyn cwestiynau ac i graffu ar y trefniadau mewn sefyllfa o argyfwng sy'n datblygu'n gyflym. Mae'r Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad yn cael adroddiadau chwarterol ar weithgareddau gwella a chyflawniadau, ac mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau ddwywaith y flwyddyn.

104 Mae agendâu pwyllgorau corfforaethol ac is-bwyllgorau wedi eu cysoni'n dda o ran cynnwys, ac maent yn darparu cwmpas cytbwys yn gyffredinol. Fel y sonnir uchod, mae'r trefniadau ar gyfer grwpiau diogelwch ac ansawdd gweithredol yn fwy amrywiol.

105 Canfuom fodd bynnag y gall adrodd i'r Bwrdd am faterion sy'n ymwneud â risg o lefel weithredol drwy strwythur y pwyllgorau arwain at lastwreiddio'r neges sy'n cael ei chyfleu. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, tynnwn sylw at enghraifft o sut, yn ein barn ni, nad oedd y sicrwydd a roddwyd i'r Bwrdd yn adlewyrchu'n llawn natur barhaus y methiannau i ddarparu'r wybodaeth risg coch ddiweddaraf ar gyfer cofrestrau risg gweithredol.

106 Tan yn gymharol ddiweddar, adroddwyd a rheolwyd materion ansawdd a diogelwch gofal sylfaenol i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Hirdymor (Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol) drwy strwythurau gweithredol i raddau helaeth. Prin oedd y gwaith craffu a'r sicrwydd a gafwyd drwy strwythurau pwyllgor y Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod materion gofal sylfaenol yn dod yn nodwedd allweddol o agenda y Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad, ac maent yn cydnabod bod lle i wneud rhagor o gynnydd.

107 Mae adroddiadau perfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â’r fframwaith cyflawni cenedlaethol presennol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu adroddiadau perfformiad fel y gallant helpu’r Bwrdd ac aelodau’r pwyllgor i nodi meysydd sy’n peri pryder yn haws. Mae adroddiadau’n cael eu symud oddi wrth ddefnyddio sgoriau coch, melyn, gwyrdd tuag at ddefnyddio adroddiadau Rheoli Prosesau Ystadegol (SPC) ar raglen Microsoft Power BI™. Maent yn darparu’r capasiti i ddilyn effaith newidiadau i’r broses dros amser.

108 Mae gwaith ar y gweill i edrych ar sut y gellir rhannu gwybodaeth am berfformiad fel mai dim ond yr wybodaeth am berfformiad sy'n berthnasol i’w hamcanion y mae angen i bwyllgorau ei hystyried. Bydd hefyd yn sefydlu sut mae’r wybodaeth honno’n cysylltu’n ôl â’r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd datblygol drwy raglen Microsoft Power BI™. Mae adran eisoes wedi ei hychwanegu sy’n rhoi gwybodaeth am fesurau canlyniadau gwrthrychol strategol.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Effeithiolrwydd is-grwpiau ansawdd a diogelwch**<br>A1 Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd dempledi generig ar gyfer agendâu a chylch gorchwyl is-grwpiau yr Is-bwyllgor Ansawdd Gweithredol, Diogelwch a Phrofiad er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau gweithredol. Canfuom nad yw cofnodion cyfarfodydd is-grwpiau o safon gyson ac nad ydynt ar gael yn rhwydd pan mae eu hangen nhw. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) fandadu'r defnydd o'r templedi generig a gyhoeddwyd yn ddiweddar gyda'r ddealltwriaeth bod templed yr agenda yn ofyniad sylfaenol y gellir ei ategu fel y bo'n briodol; | A1 a) Yr EDONQPE i ailgyhoeddi templedi a gofyn iddynt gael eu defnyddio ym mhob cyfarfod llywodraethu ansawdd mewn cyfarfodydd gwasanaeth a chyfarwyddiaeth. | 31 Tachwedd 2021 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion (EDONQPE) |
| b) cyhoeddi canllawiau ar gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd; ac | A1 b) Dogfen ganllaw i'w datblygu a'i chyhoeddi gydag (A1a). | | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| c) sicrhau bod cofnodion lleol yn cael eu storio mewn lleoliad safonol er mwyn hwyluso mynediad. | A1 c) Cynnwys o fewn dogfen ganllaw (A1b) nodyn atgoffa ar bwysigrwydd storio papurau cyfarfod yn unol â pholisi rheoli cofnodion corfforaethol. | | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth weithredol**<br>A2 Ar lefel weithredol, ceir trefniadau arwain sicrwydd, risg a diogelwch anghyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau presennol ble mae adnoddau staff ar gyfer sicrwydd, risg a diogelwch yn cael eu rheoli gan gyfarwyddiaethau er mwyn gwella cysondeb, neu symud i fodel ble caiff y staff hynny eu rheoli'n ganolog, gan sicrhau bod y cymorth sydd ar gael i'r timau gweithredol yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. | Mae trefniadau arwain cyson ar waith ar lefel weithredol (acíwt, gofal cymunedol a gofal sylfaenol) am sicrwydd, risg a diogelwch, fodd bynnag mae ymateb i'r pandemig wedi effeithio ar gapasiti'r timau arwain i allu rhyddhau eu holl atebolrwyddau yn effeithiol. Bu ffocws dyddiol ar reoli risgiau ar draws y system, ond nid yw hyn bob amser wedi cael ei adlewyrchu yn y risgiau ar y System Risgiau Datix.<br>Caiff adolygiad ei gynnal i wella'r gallu ar draws timau gweithredol a chorfforaethol i sicrhau dull cyson o reoli sicrwydd, risg a diogelwch. Mae'n bosib y bydd yna effaith ariannol ar yr adolygiad ac felly bydd angen ystyried hyn fel rhan o'r IMTP ar gyfer 2022-23. Ymysg y cerrig milltir dros yw:<br>• Ymgymryd ag asesiad o'r dull presennol, yn gorfforaethol ac yn weithredol, i lywodraethu ansawdd (gan gynnwys rheoli sicrwydd, risg a diogelwch).<br>• Parhau i gyfarfod â Chyfarwyddiaethau bob chwe mis i drafod a chraffu ar y cofrestrau risg<br>• Drwy'r strwythur busnes gweithredol, trafod cysondeb cofrestrau risg timau gweithredol | 31 Rhagfyr 2022<br><br>31 Mawrth 2022<br><br>31 Mawrth 2022<br><br>31 Mawrth 2022 | Y Cyfarwyddwr Gweithredu Gweithredol (EDO) |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cofrestrau Risgiau**<br>A3 Nid yw cofnodion cofrestrau risgiau yn cael eu diweddaru am fisoedd lawer, sy'n cyfyngu ar eu sicrwydd. Cofnodir rhai risgiau fwy nag unwaith, nid ydynt yn cael eu cydgysylltu ar draws meysydd gwasanaeth ac mae potensial hefyd y gallai effaith cyfuniad o risgiau ar wahân arwain at ganlyniadau difrifol i wasanaethau. Hefyd, nid yw risgiau sy'n benodol i'r Tîm Llawdriniaethau Cyffredinol wedi eu cynnwys yng nghofrestr risgiau y Gyfarwyddiaeth Gofal Cynlluniedig wedi ei Drefnu Rhestredig. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei reolaeth o risgiau ar lefel weithredol drwy: | Yn ystod y pandemig parhaus, mae risgiau'n parhau i gael eu rheoli'n ddyddiol, fodd bynnag, nid ydynt bob amser wedi'u cipio ar y system Risgiau Datix oherwydd capasiti gweithredol. Fel yr amlinellir yn A2, caiff adolygiad o gapasiti ar draws y swyddogaethau gweithredol a Chorfforaethol ei gynnal gan dimau i sicrhau dull cyson o reoli sicrwydd, risg a diogelwch. Yn ogystal â hyn: | | |
| a) sicrhau bod timau gweithredol yn nodi'n glir y risgiau y maent yn gyfrifol amdanynt ac yn diweddaru cofrestrau risgiau yn unol â pholisïau corfforaethol. | a) Mae proses adolygu risg ar y cyd o gofrestrau risgiau wedi'i sefydlu gyda phob Cyfarwyddiaeth gan yr EDOO a'r EDONQPE a gefnogir gan y Pennaeth Sicrwydd a Risg gan ddechrau ym mis Hydref 2021. | 31 Rhagfyr 2021 | EDO ac EDONQPE |
| b) rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwaith o reoli risgiau yn cael ei gydlynu ar draws timau gweithredol a bod dulliau ar waith i nodi pryd y gallai cyfuniad nifer o risgiau ar draws meysydd gwasanaeth arwain at risg mwy difrifol. | b) (i) Defnyddir y broses adolygu ar y cyd i atgyfnerthu rôl goruchwyliaeth gan y timau triumvirate lleol. Bydd disgwyliad y ceir cyfathrebu ac ymgynghori rhwng gwasanaethau lle mae risgiau a materion a allai effeithio ar effaith yn ehangach yn cael ei ailadrodd. | 31 Rhagfyr 2021 | EDO ac EDONQPE |
| | (ii) Mae risg bellach yn eitem safonol ar y Cyfarfod Uwch Fusnes Gweithredol sydd newydd ei sefydlu a dylai nodi risgiau traws-gyfarwyddiaeth. Bydd yr agenda wedi'i seilio o amgylch cynllun gwaith | Wedi'i gwblhau | EDO |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | yr Cyfarfod Uwch Fusnes Gweithredol, risgiau a nodwyd, materion sy'n deillio o gyfarfodydd blaenorol, materion sy'n dod i'r amlwg drwy gydol y flwyddyn a cheisiadau gan aelodau. | | |
| | iii) Gweithredu system Rheoli Risg newydd (Cam 2 Unwaith i Gymru). | 31 Rhagfyr 2021 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | iv) Gwaith dros dro i'w wneud ar y Modiwl Risg Datix presennol i hwyluso'r cyfuniad o risgiau tebyg ar draws y Gyfarwyddiaeth Gofal Eilaidd. | 31 Rhagfyr 2021 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **Rheoli Risgiau**<br>A4 Mae'r dull rheoli risgiau a ddefnyddir gan reolwyr gweithredol yn anghyson, ac mae diffyg cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer rhai risgiau ar lefel weithredol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu cymorth i alluogi uwch-reolwyr ar draws y strwythur gweithredol i ysgwyddo'r baich a bod yn atebol am eu cyfrifoldebau rheoli risgiau, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. | Ymdrinnir â hyn yn rhan o'r adolygiad a amlinellir yn A2 ac A3. | 31 Rhagfyr 2022 | EDO |

# Atodiad 2

## Canfyddiadau arolwg y staff

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytu-no** | **Anghytu-no'n gryf** | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | | | |
| 1. Gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth fy sefydliad | 18 | 17 | 2 | 1 | – | 38 |
| 2. Rwyf yn fodlon ar ansawdd y gofal a roddaf i gleifion | 17 | 17 | 2 | – | 1 | 37 |
| 3. Mae digon o staff yn fy maes gwaith/adran i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol | 1 | 17 | 9 | 10 | 1 | 38 |
| 4. Mae fy amgylchedd gwaith yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol | 9 | 19 | 6 | 3 | – | 38 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | **Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau** | | | | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytu-no** | **Anghytu-no'n gryf** | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | | | |
| 5. Rwyf yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch sylwadau cleifion ar fy maes gwaith / adran | 5 | 7 | 10 | 10 | 5 | 32 |
| **Rheoli pryderon cleifion a staff** | | | | | | |
| 6. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion | 13 | 18 | 5 | – | – | 36 |
| 7. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff | 9 | 12 | 9 | 5 | 1 | 36 |
| 8. Mae fy sefydliad yn annog staff i adrodd camgymeriadau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau | 8 | 16 | 5 | 2 | – | 31 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy’n cytuno neu’n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytu-no | Anghytu-no’n gryf | |
| **Rheoli pryderon cleifion a staff** | | | | | | |
| 9. Mae staff sy’n gysylltiedig â chamgymeriad, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad | 8 | 16 | 5 | 2 | – | 31 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | **Nifer y staff sy’n cytuno neu’n anghytuno â datganiadau** | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno’n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytu-no** | **Anghytu-no’n gryf** | |
| Rheoli pryderon cleifion a staff | | | | | | |
| 10. Pan adroddir camgymeriadau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, mae fy sefydliad yn gweithredu er mwyn sicrhau na fyddant yn digwydd eto | 8 | 19 | 3 | 3 | – | 33 |
| 11. Rhoddir sylwadau i ni am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, damweiniau a fu bron a digwydd a digwyddiadau a adroddir | 7 | 15 | 4 | 3 | 4 | 33 |
| 12. Byddwn yn teimlo’n hyderus pe bawn i’n codi pryderon ynghylch ymarfer clinigol anniogel | 15 | 12 | 6 | 5 | – | 38 |
| 13. Rwyf yn hyderus bod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon ynghylch ymarfer clinigol anniogel | 13 | 9 | 10 | 2 | – | 34 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytu-no | Anghytu-no'n gryf | |
| Gweithio yn fy sefydliad | | | | | | |
| 14. Mae'r cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff yn effeithiol | 5 | 13 | 11 | 5 | 4 | 38 |
| 15. Mae fy sefydliad yn annog gwaith tîm | 13 | 16 | 5 | 2 | 1 | 37 |
| 16. Mae gennyf ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol | 4 | 12 | 9 | 10 | 3 | 38 |
| 17. Mae'r trefniadau cynefino ar gyfer staff newydd a dros dro (e.e. staff asiantaeth/locwm/banc/staff a adleolir) yn fy maes gwaith/adran yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol | 7 | 11 | 12 | 5 | 1 | 36 |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.